Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF

Mae Cyfiawnder yn bwysig

Cynghorydd Cyfreithiol

Proffil swydd

Awst 2023

Cynnwys

Trosolwg	Tudalen 3
Swydd Ddisgrifiad	Tudalen 4
Proffil Llwyddiant	Tudalen 5 a 6
Datblygu Gyrfa	Tudalen 7

Swydd:	Cynghorydd Cyfreithiol
Cyfarwyddiaeth:	GLITEF
Band:	SEO
Cyflog:	Graddfa cyflog cenedlaethol yn dechrau ar £39,868, cyflog Llundain yn dechrau ar £45,824
Math o Gontract:	Parhaol
Rhestr Wrth Gefn:	12 mis

Trosolwg

Pam rydym yn bodoli

Mae'r Llysoedd Ynadon yn delio ag oddeutu 95% o achosion troseddol, 70% o achosion sifil a 60% o achosion teulu yng Nghymru a Lloegr. Mae delio ag achosion yn gyfiawn ac yn gyflym, ac mewn ffordd sy'n bodloni anghenion defnyddwyr ein llysoedd, wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Mae rôl cynghorydd cyfreithiol yn hanfodol i sicrhau gweithrediad llyfn y llys. Barnwyr heb gymwysterau priodol o'r gymuned leol sy'n eistedd ar sail wirfoddol yw Ynadon. Gan nad oes gan Ynadon gefndir cyfreithiol, mae'n ofynnol i'r Cynghorydd Cyfreithiol eistedd gyda nhw yn y llys i roi cyngor ar bwyntiau cyfreithiol, arferion a gweithdrefnau a'u cynorthwyo i lunio a drafftio eu rhesymau.

Fel cynghorydd cyfreithiol i'r ynadon, rydych yn gyfrifol am sicrhau bod y rhai hynny sy'n mynychu'r llys, boed hynny fel diffynnydd, dioddefwr neu dyst yn cael eu trin gydag urddas a pharch. Mae gwybodaeth gyfreithiol dda a'r gallu i gyfathrebu'r wybodaeth honno yn glir i ynadon a defnyddwyr y llys yn hanfodol er mwyn i'r llysoedd allu delio ag achosion yn gyfiawn. Drwy fod yn llwyddiannus yn y rôl yr ydych yn ystyried ymgeisio amdani, byddwch yn gallu gwneud gwahaniaeth positif i'ch cymuned a'ch cymdeithas.

Rydym yma i sicrhau bod pawb sydd angen ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd yn cael gwasanaeth sy'n bodloni eu hanghenion.

Rydym yn dod i ddiwedd ein Rhaglen Ddiwygio dros chwe blynedd gwerth £1 biliwn i newid beth rydym yn ei wneud a gwneud ein gwasanaethau yn well i'r gymdeithas rydym yn ei gwasanaethu. Y Rhaglen Ddiwygio yw un o'r rhaglenni mwyaf uchelgeisiol o'i math yn y byd.

Sut ydym am gyflawni ein gweledigaeth?

Bob blwyddyn mae miliynau o bobl yn ceisio cael cyfiawnder yn ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd. Rydym wedi ymrwymo i wella profiad y cwsmer yn sylweddol drwy:

- Ddefnyddio technolegau digidol i sicrhau mynediad at gyfiawnder drwy alluogi dioddefwyr a thystion i roi eu tystiolaeth mewn ffordd llai brawychus, er enghraifft drwy gyswllt fideo;
- Datblygu prosesau hunanwasanaeth, lle bo'n briodol, i bobl allu cael mynediad cyflym a rhwydd at wasanaethau barnwrol anghymhleth;
- Symleiddio prosesau fel y gallwn ail-fuddsoddi mewn adnoddau i wneud gwelliannau a fyddai o fudd i'n cwsmeriaid;

- Symud achosion yn eu blaen drwy'r llys yn effeithiol ac yn effeithlon gan wneud y mwyaf o'r prosesau digidol newydd.

Fel Cynghorydd Cyfreithiol, byddwch mewn sefyllfa flaengar iawn i ddarparu'r gwasanaeth a'r profiad hwn i'n cwsmeriaid yn yr ystafell llys a thu allan i'r ystafell llys.

Swydd Ddisgrifiad

Fel cyfreithiwr cymwys a fydd yn dechrau gweithio fel Cynghorydd Cyfreithiol, byddwch yn cael eich cefnogi i gwblhau rhaglen hyfforddi Cynghorydd Cyfreithiol 12 mis y Coleg Barnwrol. Bydd hyn yn rhoi'r sgiliau priodol i chi gael swyddogaethau dirprwyedig a fydd yn eich galluogi i weithredu fel Cynghorydd Cyfreithiol i'r Ynadon a'r Barnwr Rhanbarth (Llys Ynadon) yn unol â deddfwriaeth a Chyfarwyddiadau Ymarfer y Llys Troseddol a'r Llys Teulu. Yn ystod eich cyfnod hyfforddi fe gyfeirir atoch fel "Cynghorydd Cyfreithiol mewn Hyfforddiant".

Rôl y Cynghorydd Cyfreithiol yw cynghori ynadon yn y Llys Teulu a'r Llys Troseddol ar gyfraith, arferion a gweithdrefnau perthnasol a hwyluso penderfyniadau barnwrol ac ysgrifennu dyfarniadau. Byddwch hefyd yn gweithio ochr yn ochr â Chynghorwyr Cyfreithiol eraill, y farnwriaeth a staff i reoli achosion yn yr ystafell llys a thu allan i'r ystafell llys.

Bydd disgwyl i chi weithio tuag at gyrraedd cerrig milltir gyrfa Cynghorydd Cyfreithiol a chael y profiad sydd ei angen i ddod yn Gynghorydd Cyfreithiol Haen 1 a Haen 2 a chael eich awdurdodi i gyflawni swyddogaethau barnwrol perthnasol o dan Reolau Trefniadaeth y Llys Teulu a/neu'r Llys Troseddol.
Mae'r rôl yn cynnig ystod eang o gyfleoedd gyrfa o fewn gweithrediadau cyfreithiol yn ogystal â rolau ehangach mewn rheoli, hyfforddi a chyflwyno prosiectau. Mae'r rôl hefyd yn cynnig cyfleoedd rhagorol ac unigryw i ddeiliaid swyddi gael profiad sy'n berthnasol i benodiadau barnwrol.

Technegol

I fod yn gymwys ar gyfer y swydd hon, rhaid i ymgeiswyr fod wedi cymhwyso'n llawn i ymarfer fel Cyfreithiwr neu Fargyfreithiwr yng Nghymru a Lloegr neu feddu ar y Prawf Trosglwyddo Cyfreithwyr Cymwys (QLTT) neu fod yn Gymrawd o CILEX/CILEX Lawyer , gan gynnwys cwblhau'r cyfnod penodedig perthnasol o brofiad proffesiynol (e.e. contract hyfforddi neu dymor prawf). Bydd rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus allu cyflawni pob agwedd lafar o'r rôl yn hyderus drwy gyfrwng y Saesneg neu (pan leolir y swydd yng Nghymru) Cymraeg.

Mae amcanion allweddol y rôl wedi'u cynnwys o fewn Fframwaith Cymwyseddau Cynghorydd Cyfreithiol sy'n cynnwys:

(i) **Meithrin a chynnal perthynas waith effeithiol gydag ynadon**:

- Cynghori'r ynadon ar y gyfraith, arferion a gweithdrefnau a'u cynorthwyo i ddrafftio eu rhesymau
- Hwyluso proses gwneud penderfyniadau strwythuredig sy'n seiliedig ar wybodaeth o dechnegau, llawlyfrau, canllawiau a datblygiadau statudol a chyfraith achos presennol priodol
- Gweithio mewn partneriaeth ag ynadon yn yr ystafell llys a thu allan i'r ystafell llys a dangos cydnabyddiaeth a dealltwriaeth o arferion lleol, gweithdrefnau, polisïau, materion cyfredol a chyfleoedd hyfforddi perthnasol.

(ii) Hwyluso busnes y Llys:

- Paratoi gwrandawiadau fel bod achosion a busnes y llys yn gallu mynd rhagddo'n effeithiol.
- Rhoi cyngor proffesiynol a pharatoi dogfennau y tu mewn a thu allan i'r ystafell llys
- Cynllunio, cynnal a chwblhau gwrandawiadau rheoli achosion yn effeithiol, pan fyddwch yn eistedd gyda neu heb fainc o ynadon

- Defnyddio gwybodaeth arbenigol a sgiliau yn yr ystafell llys a thu allan i'r ystafell llys yn ogystal â gyda thimau gweinyddol ac mewn cyfarfodydd cysylltiedig
- Cysylltu ag asiantaethau perthnasol
- Gallu defnyddio TG yn hyderus ac yn gymwys a fydd yn cynnwys defnyddio systemau TG yn y llys ac adnoddau cyfreithiol digidol ar-lein.
- Cofnodi manylion a chanlyniadau achosion/gwrandawiadau yn gywir gan ddefnyddio system ddigidol y llysoedd.

(iii) **Cynghori a Gweithio gyda Staff:**

- Gweithio mewn partneriaeth â staff eraill, gan ddefnyddio eich gwybodaeth am brotocolau, gweithdrefnau, prosesau a chyfyngiadau perthnasol
- Gallu cwblhau dyletswyddau gweinyddol o fewn terfynau amser statudol ac anstatudol gan ddefnyddio protocolau trefnu, rhestru a rheoli achosion lleol
- Rhoi cyngor ac arweiniad cyfreithiol i staff gweinyddol

Gwneud Penderfyniadau

Mae'r gallu i gynghori a gwneud penderfyniadau gwrthrychol a diduedd yn rhan bwysig o rôl cynghorydd cyfreithiol. Weithiau bydd y penderfyniadau hynny'n cynnwys materion cymhleth a buddion cystadleuol ac fel cynghorydd cyfreithiol bydd angen i chi allu gwneud penderfyniadau cadarn yn ogystal â rhoi rhesymau clir dros y penderfyniadau hynny.

Bydd penderfyniadau sy'n ymwneud â'r gyfraith yn gofyn am waith ymchwil gyfreithiol gadarn, defnyddio adnoddau ar-lein, a'r gallu i amgyffred deddfwriaeth a chyfraith achosion yn gyflym a'i rhoi ar waith yn hyderus i'r sefyllfa sy'n cael ei hystyried.

Bydd hefyd yn ofynnol i chi flaenoriaethu a chwblhau gwaith yn effeithlon gan ystyried anghenion y rhai sydd â budd yn yr achos.

Swyddogaethau y tu allan i'r ystafell llys

Pan na fydd yn yr ystafell llys, bydd yn ofynnol i'r Cynghorydd Cyfreithiol baratoi ar gyfer y llys, ymchwilio i faterion cyfreithiol, cefnogi'r swyddogaeth datblygu achosion, delio ag ymholiadau a chynorthwyo i gwblhau dyletswyddau gweinyddol eraill y tîm yn unol â chyfarwyddyd Rheolwr y Tîm Cyfreithiol.

Gwasanaeth cwsmeriaid a safonau:

- Hyrwyddo gweithgareddau a safonau sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr - meddu ar sgiliau ysgrifenedig a rhyngbersonol cadarn gan ddefnyddio egwyddorion Llais Dynol Cyfiawnder
- Cyfrannu at SOC, SAF – arwain at gynnal safonau gwasanaethau ac adnabod meysydd sydd angen eu gwella – datblygu datrysiadau gan ddefnyddio technegau 'gwelliant parhaus'.
- Rheoli cwynion a methiannau i wasanaethau a gallu defnyddio OPTIC.

Y Broses Ddethol

Defnyddir Proffiliau Llwyddiant ar gyfer y swydd wag hon i asesu eich ymddygiadau, eich cryfderau a'ch gallu. Fe'ch asesir ar lefel 3 HEO/SEO. Nodir yr ymddygiadau a fydd yn sail i'ch asesiad isod. Anogir ymgeiswyr i ymgyfarwyddo eu hunain â'r fframwaith proffil llwyddiant. I gael gwybod mwy am broffiliau llwyddiant, cliciwch yma Fframwaith Proffiliau Llwyddiant y Gwasanaeth Sifil

Ymddygiadau

Cyfathrebu a Dylanwadu
Rydych yn cyfathrebu'n glir ac yn gryno, yn gwrando ar eraill ac yn addasu eich arddull i weddu i'r gynulleidfa. Rydych yn cyfathrebu ac yn dylanwadu'n hyderus ac yn herio eraill mewn modd adeiladol. Rydych yn diweddaru eraill bob amser ac yn gallu datblygu ymddiriedaeth a pharch rhwng y ddwy ochr.

Gweithio ar y cyd

Rydych yn ymddwyn mewn ffordd agored ac yn gallu datblygu perthynas waith dda yn hawdd. Rydych yn chwilio am ffyrdd o ddatblygu eraill ac yn barod bob amser i gefnogi cydweithwyr gyda'u llwyth gwaith. Rydych yn gweithredu fel model rôl proffesiynol ac yn rhoi arweiniad i'r staff gweithredol.

Newid a Gwella

Byddwch yn creu amgylchedd lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel i herio a gwybod y gwrandewir ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud. Rydych yn gwneud newidiadau sy'n ychwanegu gwerth ac yn esbonio'n glir sut bydd y busnes yn elwa o'r newidiadau. Rydych yn deall ac yn adnabod rôl technoleg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a gweithredu polisïau.

Rheoli Gwasanaeth o Safon

Rydych yn gweithredu fel unigolyn proffesiynol y llys, gan gynnal awdurdod a rheolaeth ac ymddwyn gydag uniondeb bob amser. Rydych yn ystyried anghenion defnyddwyr y llys ac yn eu trin gydag empathi a dealltwriaeth. Rydych yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth rhagorol, gan adnabod cyfleoedd i wella prosesau a pherfformiad ac yn cymryd cyfrifoldeb personol am eich dysgu a'ch datblygiad eich hun.

Cyflawni ar Gyflymder

Rydych yn cymryd cyfrifoldeb personol am gyflawni gwaith o ansawdd uchel, gan ddangos sgiliau trefnu a rheoli amser rhagorol. Rydych yn gweithio'n effeithiol o dan bwysau ac yn dangos gwydnwch mewn sefyllfaoedd heriol. Rydych yn hyblyg ac yn addasu'n gyflym i sefyllfaoedd ac amgylchiadau newydd, gan groesawu newid ac annog eraill i wneud yr un peth.

Cryfderau

Fel rhan o'r Fframwaith Proffil Llwyddiant, bydd y cryfderau sy'n berthnasol i'r rôl yn cael eu hasesu yn y cyfweliad.

Gallu

Bydd eich sgiliau a'ch gallu i gynnal gwybodaeth gyfreithiol perthnasol a chyfredol yn cael eu hasesu yn y cyfweliad.

Hyfforddiant

Mae GLITEF yn cynnig rhaglen hyfforddi bwrpasol sy'n cael ei darparu drwy amrywiaeth o ddulliau hyfforddi. Bydd y Cynghorydd Cyfreithiol mewn Hyfforddiant yn cael ei gefnogi gan fentor dynodedig i'w harwain drwy gydol y Rhaglen Gynefino a Hyfforddi.

Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr llwyddiannus fynychu Rhaglen Gynefino a gynhelir gan y Coleg Barnwrol. Bydd hyd y rhaglen gynefino hon yn amrywio gan ddibynnu ar yr awdurdodaeth; fodd

bynnag, bydd fel arfer yn amrywio rhwng dau / tri diwrnod. Dilynir hyn gan hyfforddiant atodol yn y gweithle a chwblhau modiwlau a geir yn Llawlyfr Cynghorwyr Cyfreithiol y Coleg Barnwrol. Ehangir ar hyn gan arsylwadau llys perthnasol a digwyddiadau hyfforddi lleol a rhanbarthol ychwanegol gyda chyfoedion.

Datblygu Gyrfa

Ar ôl cwblhau'r hyfforddiant yn llwyddiannus, bydd y Cynghorydd Cyfreithiol mewn Hyfforddiant yn symud ymlaen i rôl Cynghorydd Cyfreithiol Haen 1 (gyda chynnydd cysylltiedig mewn cyflog). Yn dilyn cael ei benodi fel Cynghorydd Cyfreithiol Haen 1 bydd rhaglen ddatblygu yn cael ei chynnig er mwyn gallu symud ymlaen i rôl Cynghorydd Cyfreithiol Haen 2 (gyda chynnydd cysylltiedig mewn cyflog).

Disgwylir i Gynghorwyr Cyfreithiol Haen 2 ddangos lefel uchel o broffesiynoldeb cyfreithiol a byddant yn defnyddio'r sgiliau hynny y tu allan i'r ystafell llys er budd ehangach eu tîm a GLITEF. Mae'r rôl Haen 2 yn rhoi'r cyfle i arddangos gwybodaeth a sgiliau mewn maes ymarfer cyfreithiol cydnabyddedig ynghyd â'r ystod lawn o bwerau dirprwyedig cysylltiedig. Mae Cynghorwyr Cyfreithiol Haen 2 yn chwarae rhan bwysig o ran sicrhau bod achosion yn cael eu rheoli'n effeithiol a bod achosion cymhleth yn cael eu rheoli.

Mae'r rôl Haen 2 hefyd yn rhoi cyfle i ddatblygu gyrfa mewn meysydd eraill fel rheoli ac arwain, mentora a hyfforddiant, gwasanaeth cwsmeriaid a chyflenwi sefydliadol.

Mae Cynghorwyr Cyfreithiol Haen 2 yn chwarae rhan bwysig wrth fentora aelodau eraill o staff, boed yn Gynghorwyr Cyfreithiol dan Hyfforddiant, yn Gynghorwyr Cyfreithiol mewn Hyfforddiant, yn brentisiaid ac yn Gynghorwyr Cyfreithiol eraill sydd yn y broses o ddatblygu eu sgiliau drwy'r strwythur gyrfa.

Gall Cynghorwyr Cyfreithiol Haen 2 ddatblygu eu gyrfaoedd o fewn GLITEF drwy gyfrwng cyfleoedd i wneud cais am swyddi Rheolwr Tîm Cyfreithiol neu o fewn y gwasanaeth sifil ehangach.

Secondiadau

O fewn Strwythur Gyrfa Cynghorydd Cyfreithiol, mae gan gynghorwyr cyfreithiol gyfle i ymgeisio am, a chael eu hystyried ar gyfer secondiadau cyfreithiol a secondiadau sydd ddim ym maes y gyfraith mewn adrannau eraill o GLITEF, y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac asiantaethau eraill y Llywodraeth.

Penodiadau Barnwrol

Bydd Cynghorydd Cyfreithiol Haen 2 yn canfod bod yr wybodaeth a'r sgiliau a enillir yn y rôl yn arbennig o berthnasol i unrhyw ddyheadau ar gyfer penodiad barnwrol. Mae GLITEF yn cefnogi ceisiadau am benodiad barnwrol ac mae nifer o gynghorwyr cyfreithiol o fewn GLITEF yn eistedd fel aelod o'r farnwriaeth sy'n derbyn ffi mewn tribiwnlysoedd, llysoedd sirol a llysoedd ynadon.

Lleoliad

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael cynnig swydd mewn llys penodol sy'n gallu goruchwylio'r rhaglen hyfforddi. Mewn llawer o ardaloedd mae timau cyfreithiol yn gweithio mewn nifer o lysoedd gwahanol a gellir disgwyl cryn dipyn o waith teithio.

Mae'r rhaglen hyfforddi yn cymryd hyd at flwyddyn i'w chwblhau a disgwylir y bydd y rhaglen yn cael ei chwblhau yn y llys lle'r ydych wedi eich lleoli. Ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol, ni ddylai deiliad y swydd wneud cais i gael ei drosglwyddo i ardal arall yn ystod y rhaglen hyfforddi.

Arweiniad yw'r swydd ddisgrifiad uchod i brif ddyletswyddau cyfredol y swydd. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr o ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd a gall fod yn ofynnol i ddeiliad y swydd ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill o bryd i'w gilydd sy'n gymesur â statws a natur y swydd.